

# CABINET CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>9 TACHWEDD 2021</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymgynghoriad ag Iwan Evans, Swyddog Monitro.</b>
<b>Rhif Cyswllt:</b>	<b>32325</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Cymeradwyo trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd Cabinet er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</b>

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

**Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet i'r dyfodol gyda'r dyddiad cychwyn i'w bennu gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth a'r Swyddog Monitro, ac o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.**

---

### RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

1. Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 yn caniatáu cynnal cyfarfodydd unai ar sail aml leoliad neu yn rhithiol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu trefniadau ar gyfer cyflawni hyn a'u cyhoeddi. Mae gan y Cabinet hawl i bennu trefniadau ar gyfer ei gyfarfodydd o fewn y gofynion cyfreithiol perthnasol.
-

## CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### CEFNDIR

#### **Mynediad i'r Cyhoedd**

2. Mae Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn caniatáu i'r Awdurdod gynnal cyfarfodydd yn rhithiol gan sicrhau fod mynediad y cyhoedd a'r wasg yn cael ei ddarparu yn rhithiol. Gall hyn fod drwy we-ddarparu y cyfarfod ond gall fod drwy ddulliau electroneg eraill sydd yn caniatáu iddynt weld a chlywed y cyfarfod. Pe cynhelir y cyfarfod mewn lleoliad penodol, gall y cyhoedd a'r wasg gael mynediad i'r ystafell/siambr lle cynhelir y cyfarfod (heblaw am faterion eithriedig). Er mwyn sicrhau mynediad rhaid unai gyhoeddi lleoliad, neu yn achos cyfarfod rhithiol gyhoeddi sut y gellir cael mynediad i'r cyfarfod ar flaen y rhaglen.

#### **Cynnal y Cyfarfod**

3. Mae rhaid i'r Cyngor yn ôl Adran 47 o'r Ddeddf fabwysiadu a chyhoeddi trefniadau sydd yn golygu fod modd cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng cyfarpar sydd yn caniatáu i gyfranogwyr nad ydynt yn yr un lle fynychu'r cyfarfod. Gall cyfarfodydd o'r fath fod yn llwyr drwy drefniadau rhithiol neu yn gyfuniad o gyfarfod sydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad gyda rhai yn mynychu o bell. Er y gellir cynnal cyfarfod mewn ystafell gyfarfod neu siambr rhaid sicrhau fod modd i'r rhai sydd yn dymuno cymryd rhan o bell fedru gwneud hynny. Mae'r term "hybrid" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer disgrifio cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn y modd yma.
4. Mae'r ddarpariaeth yma mewn grym ers 1af o Fai eleni. Fel rhan o'r gwaith mae'n angenrheidiol i'r Awdurdod fabwysiadu a chyhoeddi ei drefniadau ar gyfer cyflawni y gofynion yma a'u hail gyhoeddi os gwneir newidiadau.
5. Bu i'r Cabinet ddatgan yn ei gyfarfod ar y 6ed o Orffennaf y byddai ei gyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol yn unig hyd nes yr adolygir ymhellach.

#### **Paratoi at y dyfodol**

6. Adroddwyd i'r Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 ar y datblygiadau hyd yma a'r camau sydd ar waith i ganiatáu cyfarfodydd "hybrid" i'r dyfodol. Adroddwyd y byddai'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu polisi ynglŷn â dyfarnu pa

gyfarfodydd, a pha fath o gyfarfodydd, all gael eu cynnal yn rhithiol a pha rai fydd yn gallu cael eu cynnal mewn lleoliad penodol (neu drwy drefniant “hybrid”).

7. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mater i'r Cyngor Llawn yw sefydlu trefniadau cyfarfodydd Pwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill a bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn ystyried y Fframwaith cyfarfodydd drafft yn ei gyfarfod ar 16/11/2021 cyn cyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar yr 2ail o Ragfyr eleni. Fel cyd-destun, mae copi o'r adroddiad drafft, sydd i'w chyflwyno i'r Pwyllgor, wedi ei chynnwys yn Atodiad (i) er gwybodaeth.
8. Fodd bynnag, mater i'r Cabinet yw sefydlu ei drefniadau ei hun. Argymhellir fod cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cynnal mewn lleoliad i'r dyfodol, sef y sail “hybrid” yn arferol. Mater o ddisgresiwn yw penderfynu ar ba drefniadau i'w rhoi mewn lle. Mae arweiniad statudol yn gosod yr ystyriaethau ddylid eu cloriannu wrth ddod i gasgliad (Arweiniad statudol interim ar gyfarfodydd aml-leoliad 2021). Rhaid dal sylw at yr arweiniad yma. Mae anghenion Democratiaeth leol a'r cyhoedd yn ystyriaeth hanfodol a blaenllaw wrth benderfynu ar y drefn. Mae'r sail yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad drafft sydd i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth sef fod cyfarfodydd y Cabinet (ynghyd â chyfarfodydd y Cyngor llawn a rhai o'n prif bwyllgorau eraill) o ddiddordeb cyhoeddus penodol. Mae cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliad, ynghyd a gwe-ddarlledu yn rhoi yr ystod ehangaf o gyfleon i gael mynediad i'w drafodaethau. Fe nodir hefyd o'r adroddiad drafft i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth fod argymhelliad ar gyfer cynnal ystod o gyfarfodydd drwy'r drefn rhithiol yn unig. Felly, fel fframwaith cyfarfodydd mae hyn yn adlewyrchu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
9. Nodir y term “hybrid” ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal mewn lleoliad ond gyda darpariaeth ar gyfer cyfranogwyr sydd yn mynychu o bell.

### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

10. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddal sylw priodol at yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a gormesu anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiadau eraill a waherddir dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn ogystal mae angen cynyddu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthnasau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad oes ganddynt ( y Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol). Yn unol â'r gofyn yng Nghymru, ac er cyfarch y dyletswydd yma, mae Aseiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi a'i ddiweddarau ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Mae wedi ei atodi yn Atodiad (ii) ac nid yw wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad.

## **Amserlen**

11. Fel yr adroddwyd i gyfarfod y Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, 2021, un elfen yw'r uchod o'r gwaith paratoi ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Yn ogystal â Datblygu Fframwaith Cyfarfodydd lleol (a fydd yn cael ei argymhell i'r Cyngor llawn ar 02/12/2021) mae'n angenrheidiol parhau gyda'r datblygiadau technegol ac ymarferol, a'r cyfan yn ddarostyngedig i ganllawiau'r Llywodraeth gyda coronafirws.
12. Mae'n rhaid wrth seilwaith dechnegol gryf ar gyfer sicrhau llwyddiant y trefniadau hybrid. Mae'r siambrau wedi eu huwchraddio ers diwedd Medi eleni, ond wrth brofi rydym wedi dod ar draws ambell mân rwystr. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r cwmni i geisio goresgyn y rhwystrau hynny mor fuan â phosib. Yn ogystal, mae'n rhaid bod yn sicr fod y trefniadau yn ddigonol i sicrhau y gall cyfranogwyr gymryd rhan llawn sut bynnag eu bod yn mynychu'r cyfarfod. Rhaid hefyd bod yn fodlon fod trefniadau penderfynu y Cabinet yn gadarn er cynnal hyder y cyhoedd yn ein trefniadau democrataidd.
13. Yn ogystal, nid oes newid yn bresennol i ganllawiau Llywodraeth Cymru y dylai pawb barhau i weithio o gartref os yn bosib ac felly nid yw'r argymhelliad yn cynnig gweithredu'r trefniadau arfaethedig hyd nes y bydd yr arweiniad hwnnw yn caniatáu hynny.
14. Yn sgil yr uchod, mae'n amhosib rhoi dyddiad ar gyfer cychwyn y trefniadau newydd. Pe caiff yr argymhelliad ei gymeradwyo, byddwn yn adrodd ymhellach er mwyn datgan yn ffurfiol pan fydd yn bosib i'r trefniadau newydd ddod i rym.

---

## **UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Y Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cael mewnbwn I baratoi yr adroddiad yma

#### **Y Pennaeth Cyllid:**

“Rwyf yn fodlon byddai cefnogaeth addas yn ei le i wireddu gweithio'n hybrid gan y Cabinet pan ddaw'r amser i wneud hynny os mai hynny yw ei ddymuniad. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.”

---

**Atodiadau**

ATODIAD i Adroddiad drafft i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth  
(16/11/2021)

ATODIAD ii Aseiad Ardrawiad Cydraddoldeb